Ysgol Hafod Lon,
Parc Busnes Eryri,
Penrhyndeudraeth,
LL48 6LD
Pennaeth: Mrs Donna Roberts

01766772140

post@ysgolhafodlon.co.uk

Annwyl Rieni / Warchodwyr,

Rydym yn cysylltu i rannu gwybodaeth hefo chi yn dilyn canllawiau'r Llywodraeth ynglŷn â'r COVID-19 a'r hyn mae'r Ysgol yn ei wneud i amddiffyn lledaenu'r feirws.

**Y sefyllfa gyfredol**

- Mae'r Ysgol yn parhau ar agor nes daw canllawiau pellach gan y Llywodraeth.
- Rydym wedi gohirio pob ymweliad allanol i'r gymuned yn cynnwys profiad gwaith a nofio yn y Ganolfan Hamdden
- Gohirio noson rieni oedd i fod i gael ei gynnal wythnos yn cychwyn 30 o Fawrth.
- Dylai pob disgybl fynychu'r Ysgol oni bai eu bod yn sâl.

Mae gan yr ysgol nifer o ddisgyblion sydd yn dioddef o gyflyrau meddygol sylfaenol sy'n eu rhoi mewn perygl felly os yw eich plentyn yn dangos symptomau o unrhyw salwch byddwn yn ddiolchgar os fysech yn eu cadw adref i sicrhau iechyd a lles holl ddisgyblion a staff yr ysgol.

Os oes gan eich plentyn unrhyw un o'r symptomau canlynol dylent aros adref am 7 diwrnod – gan ddilyn trefn arferol yr Ysgol o adrodd ar absenoldeb.

- Tagiad newydd a pharhaus
- Gwres uchel

**Beth yr ydym yn annog/cynorthwyo disgyblion i wneud**

- Golchi dwylo yn rheolaidd gyda sebon – yn enwedig wrth gyrraedd yr Ysgol, ar ôl amser chwarae, ar ôl bod yn y toiledau, cyn ac ar ôl bwyd.
- Os ydynt yn teimlo'n sâl, aros adref os gwelwch yn dda.
- Osgoi cyffwrdd eu llygaid, trwyn a cheg hefo dwylo sydd heb eu golchi.
- Sicrhau eu bod yn dod a dŵr ir ysgol gyda nhw gan nad oes posib defnyddio y ffynon ddŵr i lenwi/ail lenwi poteli.

**Yr hyn rydym angen i chi ei wneud**

- Os ydych wedi newid eich manylion cyswllt yn ddiweddar, plîs gadewch i'r staff yn y swyddfa wybod cyn gynted â phosibl.
- Siaradwch hefo'ch plant am y Coronafeirws. Mae'n gyfnod pryderus a dylem sicrhau fod plant yn teimlo'n ddiogel a'u bod yn cael cefnogaeth.Mae nifer o storiau (Social stories) ar y we neu os ydych eisiau copi papur cysylltwch ar ysgol.
- Dim ond dod i mewn i'r Ysgol os yw'n HANFODOL i wneud. Yna sicrhau eich bod yn golchi eich dwylo cyn ac ar ôl ymweld.

**Datblygiadau i'r dyfodol**

Mae'n amhosibl rhagweld beth fydd camau nesaf y Llywodraeth. Yn sicr mae'n

bwysig defnyddio synnwyr cyffredin a hyblygrwydd wrth daclo'r datblygiadau. Byddwn yn parhau i fod ar agor nes daw canllawiau fel arall gan y Llywodraeth. Mae'n bosibl, wrth gwrs, i absenoldebau staff gorfodi ni i wneud addasiadau i'r rhediad dydd i ddydd - gall rhain gynnwys:

- lleihau'r diwrnod Ysgol
- cynyddu'r niferoedd mewn dosbarthiadau,
- cau dosbarthiadau neu cau adran, cau yn rhannol
- gwneud addasiadau i wersi'r Cwricwlwm.

**Urdd Gobaith Cymru**

Rydym yn disgwyl am ddiweddariad gan Urdd Gobaith Cymru am wybodaeth pellach ynglyn ar Eisteddfod ac os bydd ymweliadau preswyl Glan Llyn yn parhau. Byddwn yn eich diweddaru unwaith byddwn yn derbyn unrhyw wybodaeth ganddynt.

Yn y cyfamser byddwn yn eich diweddaru unwaith cawn wybod mwy gan yr Awdurdod neu Llywodraeth Cymru.

Gweler y gwefanau canlynol am wybodaeth ychwanegol:

https://llyw.cymru/canllawiau-ar-covid-19-ar-gyfer-lleoliadau-addysgol

https://llyw.cymru/beth-iw-wneud-os-oes-gyda-chi-symptomau-coronafeirws?_ga=2.230452636.166488763.1583928235-2065945800.1550663636

Diolch yn fawr am eich cydweithrediad parod yn ystod y cyfnod anodd hwn.

Yn gywir,

D RRoberts.

Mrs Donna Rees Roberts